

Trawsnewid Digidol a Seiberddiogelwch ar gyfer Llywodraeth Leol Cymru

DIBEN

1. Darparu trosolwg o'r gwaith a'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ac awdurdodau lleol i sefydlu swyddogaeth Prif Swyddog Digidol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.
2. Rhoi'r newyddion diweddaraf ar y Concordat ar Seibergadernid a Seiberddiogelwch rhwng Gweinidogion Cymru a CLILC.

Prif Swyddog Digidol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru

3. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes wedi gwneud llawer i wella eu haeddfedrwydd digidol. Mae gan y rhan fwyaf bellach nifer fawr o wasanaethau trafodaethol ar-lein ar gyfer preswylwyr ac mae llawer wrthi'n gwneud cryn gynnydd o ran cyflwyno offer digidol i staff a chreu amgylchedd sy'n cefnogi ac annog gweithio digidol.
4. Yn hanesyddol mae'r defnydd o dechnolegau digidol gan awdurdodau lleol yng Nghymru wedi canolbwyntio ar newid sianelau – digideiddio'r gwasanaethau trafodaethol a ddefnyddir gan breswylwyr, megis talu treth y cyngor. Er enghraifft, mae Castell-nedd Port Talbot yn gweithredu dull 'Digidol o ddewis' sy'n targedu meysydd cyflwyno gwasanaethau lle gellir gwneud arbedion drwy ymestyn gwasanaethau ar-lein presennol i breswylwyr.
5. Mae datblygiadau eraill yn cynnwys gweddnewid gwasanaethau i staff, megis cyflwyno opsiynau gweithio o bell a dod â'ch dyfais eich hun, digideiddio rhai swyddogaethau AD a rhoi polisïau swyddfa ddi-bapur ar waith. Mae llawer o gynghorau hefyd yn datblygu strategaethau Digidol ac yn edrych am ffyrdd newydd o weithio. Dyma enghreifftiau amlwg:
 - Cyngor Dinas Caerdydd, sydd newydd benodi Prif Swyddog Digidol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu rhaglen drawsnewid ddigidol sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol, ac yn cefnogi'r Cyngor i ymateb yn gadarnhaol i heriau sefydliadol ac ym maes arweinyddiaeth;
 - Sir y Fflint, lle mae'r Cyngor wedi defnyddio technoleg i gyflawni newidiadau amlweddol ar draws nifer o swyddogaethau gan gynnwys caffael, adnoddau dynol, cynnal a chadw tai, derbyniadau ysgolion a chyswllt cwsmeriaid.
 - 'iCounty and Digital Roadmap' a ddatblygwyd gan Sir Fynwy, sydd wedi gwneud cryn gynnydd o ran arferion gwaith hyblyg, ac sy'n canolbwyntio ar wella ymgysylltiad cyhoeddus a chynhwysiant digidol.
6. Mae'r flaenoriaeth a roddir i ddigideiddio yn bwysig ond mae mwy o le i atebion cydgysylltiedig ar y cyd a chyfleoedd i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.

Mae llywodraeth leol wedi bod yn glir bod awydd i fwrw ymlaen ag hyn. Adlewyrchwyd hyn yn yr ymatebion i'r Papur Gwyrdd diweddaraf ac yn nhrafodaethau cynnar y Gweithgor llywodraeth leol dan gadeiryddiaeth Derek Vaughan.

7. Mae ymchwil a wnaed gan gwmni SOCITM Consulting¹ yn nodi bod cryn gynnydd wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar draws chwe dimensiwn digidol allweddol – trafodion, arweiniad, bod yn glyfar gyda data, dyluniad i ganolbwyntio ar y dinesydd, cynhwysiant a staff. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd hwnnw yn gyffredin ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru nac ar draws y chwe dimensiwn.
8. Mae'r ymchwil hwn yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol Cymru, ond mae'n argymhell mwy o weithio ar y cyd, systemau a rennir, gweithgareddau caffael cydgysylltiedig ac arweiniad strategol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i gyflwyno gwasanaethau digidol cadarn ac effeithiol i drethdalwyr a staff.
9. Mae'r galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus a chyflymder y newidiadau technolegol, ynghyd â chynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus wedi'u digideiddio a gostyngiad cyffredinol mewn cyllidebau sector cyhoeddus yn golygu y bydd angen i gyrrff sector cyhoeddus weithio'n agosach â'i gilydd nag erioed o'r blaen i gyflwyno gwasanaethau o ansawdd uchel y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl. Bydd cydweithio yn helpu i lenwi unrhyw fylchau o ran adnoddau ac arbenigedd ac yn helpu i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad o gyllid prin drwy annog caffael ar y cyd atebion tebyg lle mae anghenion yn gorgyffwrdd.
10. Gan adlewyrchu'r uchelgais i wneud rhagor o gynnydd, mae llywodraeth leol wedi cynnig sefydlu swyddogaeth Prif Swyddog Digidol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynnig hwn wedi cael ei integreiddio â chynnig tebyg ar gyfer capasiti digidol a rennir a ddatblygwyd mewn partneriaeth gan awdurdodau lleol. Trafodwyd hyn yn wreiddiol yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol CLLC ym mis Mai 2018². Bydd y swyddogaeth hon yn darparu arweiniad strategol ar gyfer rhagor o drawsnewid digidol ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.
11. Yn yr Alban, mae Swyddfa Ddigidol ar gyfer Llywodraeth Leol yr Alban yn dangos sut y gall cydweithio rhwng awdurdodau lleol gyflawni cynnydd sylweddol. Fe'i sefydlwyd yn 2016 gyda'r gwaith o gyflwyno atebion digidol arloesol oedd yn cefnogi cynghorau i fantoli eu cyllidebau tra'n parhau i gyflwyno gwasanaethau rheng flaen hanfodol. Mae'r tîm bach yn gweithio gydag aelodau etholedig i dynnu sylw at fanteision gwasanaethau rheng flaen digidol i'w hetholwyr a sut y gellid eu cyflwyno mewn modd mwy cost effeithiol. Mae'r tîm yn yr Alban yn gweithio gyda chynghorau i adnabod sut y gallent gydweithio i gyflwyno llwyfannau cryf ar gyfer twf yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu gwasanaethau cwmwl, seiberddiogelwch, adolygu rhwydweithiau, gwell defnydd o ddata a bod yn barod ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

¹ [Gwaelodlin digidol awdurdodau lleol](#)

² <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1584>

12. Mae CLILC ac awdurdodau lleol yng Nghymru wrthi'n gweithio ar hyn o bryd ar achos busnes manwl i sefydlu swyddogaeth Prif Swyddog Digidol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.
13. Byddai rôl strategol swyddogaeth newydd Prif Swyddog Digidol yn cwmpasu:
 - Arwain yr agenda ddigideiddio ar draws llywodraeth leol yng Nghymru;
 - Cydweithio wedi'i hwyluso;
 - Cynghori, cefnogi a galluogi awdurdodau lleol i gydweithio;
 - Cynllunio, cyflwyno a rheoli llwyfan cydweithio yn seiliedig ar y cwmwl;
 - Sefydlu prosiectau blaenoriaeth;
 - Hwyluso rhannu sgiliau a chyfleoedd datblygu;
 - Hyrwyddo ac annog safonau ac atebion; a
 - Chynghori a chynorthwyo ar yr agenda seiberddiogelwch a diogelu systemau.
14. Rhagwelir y bydd y Prif Swyddog Digidol yn cael ei gefnogi'n weithredol gan grŵp bach a fyddai'n cynllunio a gweinyddu gwasanaethau i awdurdodau lleol. Byddai awdurdodau lleol yn rheoli eu prosiectau a'u systemau eu hunain gyda chefnogaeth y tîm canolog hwn.
15. Byddai'r swyddogaeth a'r tîm yn gweithio i sbarduno'r sgiliau cryf a rhannu'r capasiti sydd gennym yng Nghymru ar hyn o bryd, ond nad yw bob amser yn y man cywir nac o'r maint sydd ei angen. Bydd Prif Swyddog Digidol newydd llywodraeth leol yn helpu i gefnogi trawsnewid digidol ar raddfa llawer yn gynt ar draws awdurdodau lleol Cymru drwy weithio ar draws ffiniau gweithredol a sefydliadol a thrwy rannu adnoddau ac arfer gorau.
16. Bydd y cynnig sy'n cael ei ddatblygu yn amlinellu model ariannu ar y cyd a fydd yn destun ystyriaeth bellach gan aelodau CLILC a'r Gweinidogion maes o law.

Seibergadernid a Seiberddiogelwch

17. Ystyrir ymosodiadau seiber a seiberdroseddu ar raddfa fawr yn risg Haen Un yn y DU³. Gall canlyniadau ymosodiadau seiber fod yn bellgyrhaeddol ac achosi niwed gwirioneddol i ddioddefwyr. Gall sefydliadau dan fygythiad ymosodiad seiber wynebu costau sylweddol er mwyn delio â'r ymosodiad a'i ganlyniadau yn ogystal â delio ag unrhyw niwed i'w enw da, iawndal am unrhyw niwed a achoswyd i unigolion neu sefydliadau arall, a dirwyon sylweddol o bosibl am dorri Deddf Diogelu Data 2018.
18. Mae seibergadernid a seiberddiogelwch o fewn awdurdodau lleol yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n rhedeg yn esmwyth ac i sicrhau bod y cyhoedd yn ymddiried bod eu gwybodaeth yn ddiogel a'u bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau'r cyngor yn ddi-dor. Mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) yn nodi y gellir atal llawer o ymosodiadau seiber, neu

³ [Fact Sheet 2: National Security Risk Assessment](#)

leihau'r effaith, drwy fabwysiadu mesurau seiberddiogelwch sylfaenol. Roedd ymchwil cwmni SOCITM Consulting hefyd wedi ystyried sut roedd cyngorau'n delio â seiberddiogelwch. Yn yr un modd â thrawsnewid digidol, mae dulliau gweithredu llywodraeth leol ar seiberddiogelwch yn amrywio o gyngor i gyngor.

19. Dros y chwe mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal nifer o weithdai a thrafodaethau gyda darparwyr allanol ar draws y sector gyhoeddus ehangach, y sector breifat ac academia i ystyried seibergadernid a seiberddiogelwch. Un o'r prif argymhellion o'r sesiynau hynny oedd y gallai sefydliadau ar draws y sectorau ymrwmo i fodloni'r isafswm safon o ran seiberddiogelwch a argymhellir gan y NCSC. Byddai hyn yn sicrhau bod holl sefydliadau'r sector gyhoeddus yn rhannu ymwybyddiaeth gyffredin o faterion seibergadernid a seiberddiogelwch ac yn cyflawni safon gyffredin o ran diogelwch.
20. Yn dilyn y trafodaethau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda llywodraeth leol yng Nghymru i symud y mater yn ei flaen. Canlyniad y gwaith hwn yw Concordat arfaethedig rhwng Gweinidogion Cymru a CLILC ar ran llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd hyn yn dangos ymrwymiad llywodraeth leol i seibergadernid a seiberddiogelwch ac yn sefydlu sylfaen gyffredin ac adnabyddadwy o fesurau seiberddiogelwch ledled Cymru gyda chymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Concordat yn cynnwys yr ymrwymiad y bydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn cyflawni ardystiad Hanfodion Seiber a Mwy (Cyber Essentials Plus), cynllun a gefnogir gan y llywodraeth a'r diwydiant i gynorthwyo sefydliadau i ddiogelu eu hunain rhag bygythiadau seiber, fel isafswm safon. Mae'r NCSC yn annog pob sefydliad i fabwysiadu'r gofynion a chefnogir hyn gan Weinidogion Cymru a CLILC. Yn y tymor hwy, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio i ymestyn y dull hwn i sectorau arall.
21. Mae'r Concordat arfaethedig yn amlinellu'r dyheadau a rennir gan Weinidogion Cymru a CLILC, ac yn cynnwys ymrwymiad i bob awdurdod lleol yng Nghymru:
 - a. Gyflawni ardystiad Hanfodion Seiber a Mwy fel isafswm safon erbyn mis Mawrth 2019;
 - b. Sicrhau bod y bygythiad seiber yn cael ei adnabod fel risg busnes corfforaethol ac yn cael ei ystyried yn rheolaidd ar lefel uwch reolwyr;
 - c. Nodi aelod gweithredol ac uwch reolwr a'u henwi fel y rhai sy'n gyfrifol am reoli'r bygythiad seiber i'r sefydliad;
 - d. Cofrestru gyda Phartneriaeth Rhannu Gwybodaeth Seiberddiogelwch (CiSP) y NCSC i rannu gwybodaeth am fygythiadau seiber;
 - e. Ystyried a rhoi offer *Active Cyber Defence* y NCSC sydd ar gael am ddim ar waith fel y bo'n briodol;
 - f. Sicrhau bod gan aelodau staff priodol y gwiriadau diogelwch cywir er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i ddigwyddiad seiber; ac
 - g. Adrodd unrhyw ddigwyddiad seiber arwyddocaol i'r NCSC.
22. Er mwyn cefnogi'r Concordat, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i gyflawni ardystiad Hanfodion Seiber a Mwy erbyn mis Mawrth 2019. Ardystiad wedi'i achredu gan y NCSC yw Hanfodion Seiber a Mwy i gynorthwyo sefydliadau i ddiogelu eu hunain rhag bygythiadau

seiber. Caiff ei ddilysu gan arbenigwyr annibynnol, gan gynnwys ymweliad â'r safle.

AMSERLEN

23. Mae awdurdodau lleol a CLILC wrthi'n gweithio ar y cynnig ar gyfer swyddogaeth Prif Swyddog Digidol a'r model cyllido a bydd achos busnes yn cael ei ystyried ar ddiwedd 2018.

24. Trefnwyd bod y Concordat Seiber yn cael ei arwyddo ar y diwrnod ac rydym yn argymhell ein bod yn adolygu cynnydd yn erbyn yr ymrwymadau yn flynyddol.

CAM GWEITHREDU

25. Nodi'r achos busnes dros swyddogaeth Prif Swyddog Digidol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu a bod cynnig yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Medi.

26. Nodi bod y Concordat Seiber wedi'i gytuno rhwng Gweinidogion a CLILC.